**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Cymorth Busnes |
| **TEITL Y SWYDD** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **RHIF Y SWYDD** | NU151 |
| **GRADD** | 14<br>(**Gradd 16 os ymgymerir â chyfrifoldebau ychwanegol a amlygir o fewn y Swydd-Ddisgrifiad) |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

**NODER:- O ganlyniad i'r gofyniad bod y deilydd yn gweithio â goruchwyliaeth leiafsymiol ar faterion cyfreithiol, nid yw'r swydd hon yn addas ar gyfer Cytundeb Hyfforddi.**

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | **Gradd yn y Gyfraith neu brofiad cyfartalog*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*** |
| | Cyfreithiwr, Bargyfreithiwr, Cymrawd o Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol neu gymhwyster gymharol arall | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Cyfreithiwr neu Fargyfreithiwr** (**yn gymwys ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol yn unig**) | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad profedig o ddelio â materion cyfreithiol cyffredinol*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/ Cyfweliad** |

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| | **Profiad profedig o o leiaf un o'r meysydd cyfreithiol canlynol:**<br>• **Eiddo**<br>• **Cytundeb**<br>• **GDPR a Rheoli Gwybodaeth** | **Hanfodol *** | **Cais/Cyfweliad** |
| | Profiad profedig o faterion yswiriant | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Profiad profedig wrth gyflawni trafodion Gorfodi ac Erlyn Diogelwch Tân | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | **Profiad o weithio ar draws meysydd cyfreithiol gwahanol** | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | Profiad o reoli llwyth achos heb oruchwyliaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | Profiad profedig o reoli tîm/unigolion | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | Profiad o ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau gerbron bwyllgorau a byrddau | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Arddull Bersonol** | **Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd lawn â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaeth, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir*** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |
| | **Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa*** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| | Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd heriol yn gyson (e.e. delio â llwythi achos cymhleth ac amrywiol, ymateb i broblemau cymhleth o dan bwysau aruthrol) | Hanfodol | Cyfweliad |
| | Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo effeithiolrwydd sefydliadol gwell | Hanfodol | Cyfweliad |
| | Llygad at fanion a chywirdeb | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Rhyngberson ol** | Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r gymuned ill dau, (e.e. adeiladu a chynnal partneriaethau, darparu gwasanaeth sydd â'i ganolbwynt ar y cwsmer) | Hanfodol | Cyfweliad |
| | **Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd* (e.e. darparu cyngor safonol ar lafar ac yn ysgrifenedig, sgiliau drafftio a negodi cryf)** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |
| | Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau i wella effeithiolrwydd gweithredol, (e.e. dyrchafu perfformiad wrth ddarparu gwasanaeth cyfreithiol ac yswiriant o ansawdd uchel drwy law rheoli tîm effeithiol) | Hanfodol | Cyfweliad |

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Tasg** | **Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a gofynion allweddol, (e.e. addasu at flaenoriaethau newidiol a gofynion cystadleuol)*** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |
| | **Y gallu i arwain grwpiau i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad*** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |
| | **Y gallu i greu a chyflawni cynlluniau effeithiol i ddarparu ystod o amcanion sefydliadol*** | **Hanfodol *** | **Cais*/Cyfweliad** |
| | Y gallu i adnabod effaith a goblygiadau gwleidyddol posib o safbwynt strategol | Hanfodol | Cyfweliad |

**** Cyfrifoldeb Ychwanegol**

Lle bydd perfformiad boddhaol profedig yn cael ei arddangos a'i gymeradwyo, efallai rhoddir cyfrifoldeb ychwanegol i'r deilydd swydd o faterion Gorfodi ac Erlyn Diogelwch Tân (gan gynnwys cynrychiolaeth mewn llys barn). Mae'r cyfrifoldeb hwn yn gofyn i ddeilydd y swydd fod yn Fargyfreithiwr neu Gyfreithiwr a fydd yn denu cydnabyddiaeth ychwanegol at Radd 16.

**D.S.**
**Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.**

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG